



www.furthermaths.org.uk/wales



Gowerton School

Astudiaeth Achos	Gowerton School
------------------	-----------------

Cyfeiriad	Cecil Road, Gowerton, Abertawe SA4 3DL
-----------	--

Nifer of fyfyrwyr 16 – 18 oed 2013/14	
---	--



Astudiaeth Achos:

Athrawes – Ms Angharad Parsons – Pennaeth Mathemateg

Cyflwyno Mathemateg Pellach:

Yn fy ysgol flaenorol bûm yn dysgu Mathemateg Bellach UG yn fy amser sbâr, fodd bynnag, mae amser yn llawer mwy gwerthfawr yn awr gyda chymaint o newidiadau a datblygiadau mewn addysg mathemateg ac yn fy swydd newydd yn Ysgol Gowerton nid oeddwn yn gallu ei gynnig. Daeth un o'r disgyblion mwyaf galluog ataf yn gynnar ym Mlwyddyn 12 wedi penderfynu o'r diwedd ei fod am ddilyn llwybr gyrfa mwy gwyddonol a mathemategol i mewn i Brifysgol. O ganlyniad, o fod wedi dechrau gwneud rhywfaint o waith ymchwil roedd wedi canfod bod Prifysgolion fel Rhydychen a Chaergrawnt yn ffafrio disgyblion oedd â chymhwyster mewn Mathemateg Bellach. Roedd yn teimlo mewn cyfng-gyngor fel yr oeddwn i. Fodd bynnag, dyma pryd y des i wybod am fodolaeth y FMSP a'r cyfleusterau a'r cyfleoedd y mae'n ei gynnig i ysgolion fel fy un i. Cysylltais ac yn gyflym iawn roedd popeth ar waith gyda thiwtor yn dod i mewn yn rheolaidd i addysgu .

Flwyddyn yn ddiweddarach, mae'r disgybl Blwyddyn 12 newydd gwblhau ei Fathemateg A2 a Mathemateg Bellach UG ac mae wedi cael cynnig Prifysgol o Goleg Imperial. Mae tri disgybl ym Mlwyddyn 12 yn awr yn dilyn yr un rhaglen ac maent newydd eistedd FP1. Roeddwn hefyd yn gallu trafod y cyfleoedd gyda rhieni mewn noson agored y chweched dosbarth lle'r oedd rhywfaint o ddiddordeb gan y disgyblion mwy galluog. Yr wyf yn rhagweld y bydd hyn yn bartneriaeth y byddaf yn parhau i ddefnyddio a mireinio yn y dyfodol

Manteision Astudio Mathemateg Bellach?

Rwyf gweld y FMSP yn hynod o ddefnyddiol, yn bennaf yn rhoi'r cyfle i ennill cymhwyster nad oeddem yn gallu ei ddarparu ar gyfer y disgyblion, a hefyd o ran darparu dosbarthiadau adolygu hynod ddefnyddiol y gall pob un o'r chweched dosbarth ei ddefnyddio. Yr wyf wedi cyfathrebu yn rheolaidd â nhw am gynnydd myfyrwyr ac mae'r disgyblion eu hunain wedi cael profiad cadarnhaol iawn.

